



Croeso: beginners' Welsh
Circumstances and verbs

This section deals with what you might do in certain circumstances using the conditional forms of verbs.

Listen to Annest and Gwilym answering questions about what they would do in certain imaginary situations:

Beth fasech chi'n wneud, tasech chi'n ennill y loteri?

Annest:

Taswn i'n gyfoethog, faswn i'n mynd ar fy ngwyliau pob yn ail mis, ac faswn i yn prynu tŷ newydd i bob aelod [*member*] o'r teulu, a faswn i'n rhoi'r arian i amryw o achosion da [*good causes*].

Gwilym:

Taswn i'n ennill y loteri - wel - byddwn i yn y seithfed nef [*in seventh heaven*], a byddwn i'n gallu gwneud cymaint o waith da hefo'r arian a fyddai'n dod i mi. Fyddwn i'n gallu helpu fy nheulu, ond byddwn i'n gallu helpu Cymru hefyd ... byddwn i'n gallu rhoi arian i fudiadau [*organizations*] fel yr Urdd a Chymdeithas yr Iaith. Byddwn i'n gallu agor mwy o ysgolion Cymraeg. Byddwn i'n gallu gwneud llawer iawn o bethau pe bawn i'n gyfoethog.

Beth fasech chi'n wneud, tasai mwy o amser sbâr gyda chi?

Annest:

Tasai mwy o amser sbâr gyda mi, baswn i'n mynd i'r gampfa'n amlach [*more often*] ... faswn i'n treulio mwy o amser yn yr ardd ... faswn i'n treulio mwy o amser yng nghwmni'n [=fy] ffrindiau [*in the company of friends*].

Gwilym:

Does dim llawer o amser sbâr rhwng pawb a phopeth. Mae wastad rhywbeth i'w wneud. I ddweud y gwir, dw i ddim yn gwybod sut ffeindiais [*I found*] i'r amser i fynd i [fy] ngwaith cyn ymddeol achos mae'r ffôn yn canu, mae 'na lythyr yn cyrraedd, mae rhywun yn galw. Mae rhywun eisiau rhywbeth drwy'r amser, i ddweud y gwir, a felly does dim llawer o amser. Ond tasai amser sbâr gen i, wel dw i ddim yn siŵr beth

fyddwn i'n wneud, o bosib mynd yn y car am dro weithiau, a mynd i'r Gogledd ar wyliau hwyrach, ie, dyna ni.

Beth fasech chi'n wneud, tasech chi'n gweld lleidr mewn siop?

Annest:

Taswn i'n gweld lleidr mewn siop, faswn i'n troi [fy] nghefn ... faswn i'n mynd yn syth at reolwr [*manager*] y siop.

Gwilym:

Taswn i'n gweld lleidr mewn siop, o, dw i ddim yn siŵr beth faswn i'n wneud. Baswn i'n gweiddi siŵr o fod ac yn rhedeg ar ei ôl o, neu tasai gen i ffôn symudol, wrth gwrs byddwn i'n gallu ffonio'r heddlu, ond does dim ffôn symudol hefo fi, felly beth faswn i'n gwneud? – wel, ceisio ei ddal e.

Beth fasech chi'n wneud, tasech chi'n anghofio allwedd i'r tŷ?

Annest:

Taswn i'n anghofio goriadau'r tŷ, faswn i'n mynd [yn] syth i dŷ [fy] mrawd am y gorriad sbâr.

Gwilym:

Wel, byddwn i'n sefyll tu allan i'r tŷ fel llo a meddwl beth i'w wneud nesa ond – ha ha – dw i wedi dysgu gwrs achos dw i wedi cael fy nghloi allan o'r tŷ o'r blaen, a felly dw i wedi cuddio gorriad sbâr yn yr ardd. Ond dw i ddim yn mynd i ddweud wrthoch chi ble wrth gwrs. Ond taswn i wedi anghofio allwedd i'r tŷ, dyna i gyd fyddai raid i mi wneud fyddai rhedeg i gefn y tŷ a chwilio am yr allwedd sbâr.

A few unfamiliar phrases may be **bob yn ail mis** which means *every second month* and **achos da** – *a good cause* whose plural is **achosion da**.

Notice that Gwilym often uses the form **byddwn i** rather than **baswn i**, and one time he also uses the formal form **pe bawn i** rather than **taswn i**. You might also notice that **faswn i** is sometimes used for **baswn i** etc. The use of a mutated form is common enough.

Did you understand Gwilym's phrase **mae wastad rhywbeth i'w wneud**? **wastad** here means *always*, so *there's always something to do*. He also uses the word **hwyrach** pronounced 'w-rach' which means *perhaps*.

When I asked about what Annest and Gwilym would do if they lost the house keys, I used the word **allweddi**, but in the answers you'll hear the word used in the north which is **goriad**, plural **goriadau**.

Try listening to what they say a second time, and if you're stuck you can always refer to the transcript which includes translations of a few of the expressions.